# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Teams**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mawrth 2021

Amser: 09.30 - 11.05

# Cyfarfod preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AS<br>Delyth Jewell AS<br>Darren Millar AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton (Archwilydd Cyffredinol Cymru)<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Vikki Howells MS, a oedd wedi nodi ymlaen llaw ei bod yn fodlon â'r adroddiad drafft a fyddai'n cael ei drafod yn ystod eitem 4.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2a Trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Aelodau o Staff Dros Dro - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan y Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (26 Chwefror 2021)**

**2b Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (1 Mawrth 2021)**

**2c Maes Awyr Caerdydd: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (3 Mawrth 2021)**

**2d Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (4 Mawrth 2021)**

**2e Myfyrdod ar y Pumed Cynulliad/y Bumed Senedd: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (8 Mawrth 2021)**

**2f Addasiadau Tai: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (10 Mawrth 2021)**

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru

3.1 Trafododd yr Aelodau y llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu yn ôl i ofyn bod yr ymateb yn cael ei anfon at Gadeirydd newydd y Pwyllgor perthnasol yn y Senedd nesaf.

## 4 Adroddiad Gwaddol: Trafod yr adroddiad drafft

4.1 Trafododd yr Aelodau yr Adroddiad Gwaddol, gan gytuno arno yn amodol ar nifer o ddiwygiadau. Caiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

## 5 Sylwadau i gloi

5.1 Nododd y Cadeirydd mai dyma gyfarfod olaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y bumed Senedd. Diolchodd i'r Aelodau presennol a'r Aelodau blaenorol am eu gwaith ar y pwyllgor ac am ymgysylltu â'i waith.

5.2 Aelodau blaenorol y pwyllgor oedd:

- Mike Hedges;
- Neil McEvoy;
- Lee Waters;
- Jack Sargeant;
- Neil Hamilton;
- Adam Price; ac
- Angela Burns.

5.3 Hefyd, talodd y Cadeirydd deyrnged i Mohammad Asghar, a fu farw ym mis Mehefin 2020. Ychwanegodd fod y pwyllgor hwn a'r pwyllgorau blaenorol wedi bod yn ffodus iawn o gael *Oscar* yn aelod ohonynt.

5.4 Talodd aelodau'r pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol Cymru deyrnged i Nick Ramsay AS am y ffordd gydsyniol, cynhwysol ac arloesol y llwyddodd i gadeirio'r pwyllgor yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Gwnaethant oll ddymuno'n dda iddo at y dyfodol

5.5 Hefyd, talodd y Cadeirydd deyrnged i'r gefnogaeth a gafodd gan yr Archwilydd Cyffredinol presennol a'i ragflaenydd, yn ogystal â thîm yr Archwilydd Cyffredinol, y Clercod a'r holl staff cymorth yng Nghomisiwn y Senedd.

5.6 Dymunodd y Cadeirydd yn dda i bawb at y dyfodol.